**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 14eg Mawrth 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Arwel Jones, Tina Jones, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Clerc, Denfer Morgan

**178 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Ray Williams a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod

**179 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Chwefror 2024.

**180 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Neuadd Bentref Cilcennin (Cyfarfodydd 2022-24) - £120
*Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth):*
Denfer Morgan - £357.70
CThEF (TWE) - £89.42

Costau Gweinyddol y Clerc (2023-24) - £170.19

**181 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddau gais am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

CFfI Felinfach - £100
CFfI Ceredigion - £50

**182 Mynwent Eglwys Cilcennin**

**PENDERFYNWYD:**

i) nodi na dderbyniwyd gwybodaeth bellach oddi wrth Awdurdodau'r Eglwys; a

ii) nodi fod y cyn-cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

**183 Unrhyw Fater Arall**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) cytunwyd trefnu sesiwn codi sbwriel
b) nodwyd yr ateb a dderbyniwyd oddi wrth y Cyngor Sir parthed cais y Cyngor hwn am arosfan ‘baner a pholyn’ ar gyffordd Tŷ Mawr a gofynwyd i’r Clerc ddilyn hwn i fyny.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:10pm